# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MERCHER, 20 EBRILL 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd/wyr | Y Cynghorydd/wyr | Y Cynghorydd/wyr |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Cole | P Lloyd |
| P M Matthews | P B Smith | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Keith Coxon | Rheolwr Glanhau Strydoedd a Gorfodi |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Rheoli Traffig a'r Rhwydwaith Priffyrdd |

61 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J C Bayliss a C Thomas.

62 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni chyhoeddwyd unrhyw fuddion.

63 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2016 a Phwyllgor Arbennig Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2016 fel cofnod cywir.

64 **CYFLWYNIAD AR REOLI GWASTRAFF**

Rhoddodd Keith Coxon, Rheolwr Glanhau Strydoedd a Gorfodi, gyflwyniad PowerPoint a dangos fideo byr yn amlinellu rôl y "Siop Gornel" – y siop ailddefnyddio yn y Safle Byrnu, Llansamlet.

Amlinellodd y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gwerthu eitemau a thrafodwyd y cynlluniau/ystyriaethau canlynol ar gyfer y dyfodol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICC);
- Ehangu maint y siop;
- Ystyried gweithio'n agosach gydag elusennau;

- Ehangu amrywiaeth y nwyddau a werthir;
- Defnyddio'r rhyngrwyd i roi hwb i werthiannau ac incwn;
- Archwilio sut gellir cynnal y siop orau.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Dylai'r Rheolwr Glanhau Strydoedd a Gorfodi gyflwyno adroddiad sy'n amlinellu'r opsiynau sydd ar gael;
2) Dylid trefnu ymweliad â'r “Siop Gornel”.

65 **GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS.**

Gohiriwyd yr eitem ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

66 **PEDESTREIDDIO STRYD Y GWYNT.**

Rhoddodd Stuart Davies, Pennaeth Priffyrdd a Chludiant, a Mark Thomas, Arweinydd Grŵp Rheoli Traffig a'r Rhwydwaith Priffyrdd, adroddiad llafar mewn perthynas â'r opsiynau amrywiol sydd ar gael i bedestreiddio Stryd y Gwynt.

Yn ogystal, gwnaethant amlinellu ystyriaethau ychwanegol megis:

- Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr;
- Mynediad i breswylwyr a dosbarthu nwyddau i fusnesau;
- Mynediad i'r anabl;
- Mynediad i gerbydau argyfwng.

**PENDERFYNWYD** rhoi copi o adroddiad sy'n amlinellu'r holl opsiynau sydd ar gael ynghyd â thystiolaeth lle mae pedestreiddio wedi bod yn llwyddiannus/aflwyddiannus mewn lleoliadau eraill o faint tebyg yng nghyfarfod cyntaf Blwyddyn Ddinesig 2016-2017.

67 **Y DIWEDDARAF GAN Y CADEIRYDD.**

Dywedodd y Cadeirydd fod aelodau perthnasol o'r Cabinet wedi gofyn i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu ystyried yr eitemau canlynol:

- Canolfannau Siopa Rhanbarthol - ail ymweliad safle â'r Mwmbwls.
- Polisi Tipio'n Anghyfreithlon (Rheoli Gwastraff)
- Safleoedd Amwynderau Dinesig
- Polisi Coed (tir y cyngor yn unig)

68 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Dylai cyfarfod y Pwyllgor Arbennig a gynhelir ar 11 Mai 2016 ganolbwyntio ar y Strategaeth Mannau Agored;

2) Dylai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor i'w gynnal ym Mlwyddyn Ddinesig 2015-2016 dderbyn adroddiad ar:

- Bedestreiddio Stryd y Gwynt.

3) Dylai'r eitemau canlynol gael eu hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol:

- Y diweddaraf ar Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus;
- Gwelliannau i'r “Siop Gornel”, y Safle Byrnu, Llansamlet;
- Adborth ar Ymweliadau â Chanolfannau Siopa Rhanbarthol (ail ymweliad safle â'r Mwmbwls);
- Ystadau Tai sy'n Cynnwys Strydoedd nad ydynt wedi'u Mabwysiadu (Preifat);
- Polisi Tipio'n Anghyfreithlon (Rheoli Gwastraff);
- Safleoedd Amwynderau Dinesig (Rheoli Gwastraff);
- Polisi Coed (tir y cyngor yn unig).

Daeth y cyfarfod i ben am 4.07 pm

**CADEIRYDD**